
Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd

Haf 2020

ADRODDIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 10 Medi 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Dangosfyrddau	6

1. Trosolwg

Dyma'r ail ddiweddariad dros dro i'n hadroddiad blynyddol Cysylltu'r Gwledydd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019. Mae wedi'i seilio ar y ddarpariaeth symudol ac argaeledd band eang sefydlog ar draws y DU fel yr oedd y sefyllfa ym mis Mai 2020, yng nghanol pandemig y coronafeirws yn y DU.

Yn ein hadroddiad llawn ar ddiwedd y flwyddyn, byddwn yn adrodd ar effeithiau'r pandemig ar seilwaith telegyfathrebiadau'r DU a sut mae wedi addasu i fodloni'r newid yng ngofynion defnyddwyr. Er enghraifft, mae defnydd band eang yn y cartref a thraffig galwadau symudol ill dau wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i newid mewn arferion gweithio. Ar y llaw arall, mae defnydd data symudol wedi gostwng oherwydd bod pobl yn defnyddio Wi-Fi yn eu cartrefi i gael gafael ar gynnwys ar eu ffonau clyfar.

Prif Ganfyddiadau

Mae **band eang ffeibr llawn** wedi cynyddu'n sylweddol i fwy na 4.2 miliwn o gartrefi (14%), sy'n gynydd o'i gymharu â 3.5 miliwn (12%) adeg ein diweddariad diwethaf.

Mae **darpariaeth band eang cyflym iawn a gwibgyswllt yn parhau i ehangu ar draws y DU**, ond i raddau llai, gan gynyddu tua 100,000 a 500,000 o adeiladau yn y drefn honno.

Mae **darpariaeth symudol yn dal yn sefydlog** ond mae darparwyr symudol wedi dechrau cyflwyno darpariaeth i ardaloedd newydd drwy'r **Rhwydwaith Gwledig a Rennir**, mewn cytundeb a wnaed gyda Llywodraeth y DU yn gynharach eleni. O ganlyniad i hyn, mae disgwyl i ddarpariaeth genedlaethol gynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Yn ogystal â'r adroddiad hwn, rydyn ni'n cyhoeddi [dangosfwrdd](#) a [siart ryngweithiol](#) sy'n cynnwys y data diweddaraf a data hanesyddol.

Mae'r data o'r diweddariad hwn wedi cael eu defnyddio hefyd i adnewyddu'r [wefan a'r ap gwirio darpariaeth](#).

Y prif ganfyddiadau - Band Eang Sefydlog

Band eang ffeibr llawn¹: mae argaeledd band eang ffeibr llawn yn y DU yn parhau i wella'n gyflym, gyda mwy na 4.2 miliwn o gartrefi² (14%) bellach yn gallu manteisio ar wasanaethau ffeibr llawn cyflymach a mwy dibynadwy – cynnydd o 670,000 (dau bwynt canran) ers mis Ionawr. Mae hyn oherwydd bod lefelau cyflwyno wedi cynyddu – yn sgil ehangu rhwydweithiau band eang sy'n bodoli eisoes yn ogystal â chynnwys yn ein dadansoddiad o gwmnïau yn adeiladu rhwydweithiau ffeibr newydd sbon.

¹ Dim ond os yw'r canlynol yn wir yr ydym yn ystyried bod gan eiddo "ddarpariaeth ffeibr llawn": 1. bod ffeibr ar gael yn agos at yr eiddo, fel mai dim ond cysylltiad ffeibr pwrpasol i'r eiddo sydd ei angen i ddarparu cysylltedd ffeibr llawn (o'r dechrau i'r diwedd), a 2. mai dim ond tâl cysylltu cyhoeddedig y cytunwyd arno ymlaen llaw y byddai disgwyl i'r defnyddiwr ei dalu, pe bai tâl o'r fath yn cael ei godi

² Sylwch ein bod yn adrodd ar eiddo preswyl (cartrefi) o ran darpariaeth ffeibr llawn, gwibgyswllt a chyflym iawn, ond ein bod yn adrodd ar eiddo masnachol o ran 'band eang teilwng'

Band eang gwibgyswllt (cyflymder llwytho i lawr o 300 Mbit/s³ o leiaf): mae argaeledd band eang gwibgyswllt wedi cynyddu ychydig llai na 500,000 eiddo ar draws y DU ers ein Diweddariad yn y gwanwyn, i 16.6 miliwn o gartrefi (57%). Cynnydd yn argaeledd rhwydwaith cebl a darpariaeth ffeibr llawn Virgin Media sy'n bennaf gyfrifol am hyn. Mewn rhai ardaloedd (trefol yn bennaf) mae rhwydweithiau ffeibr newydd yn cael eu cyflwyno mewn ardaloedd sydd eisoes â darpariaeth gwibgyswllt, ac felly dydy'r cynnydd mewn argaeledd ffeibr llawn ddim o reidrwydd yn arwain at gynnydd cyfatebol mewn darpariaeth gwibgyswllt.

Band eang cyflym iawn (cyflymder llwytho i lawr o 30 Mbit/s o leiaf): mae band eang cyflym iawn yn parhau i gael ei gyflwyno ar draws y DU, gyda 100,000 eiddo ychwanegol ers ein hadroddiad diwethaf. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o 27.8 miliwn o gartrefi (95%) yn gallu manteisio ar fand eang cyflym iawn erbyn hyn.

Band eang teilwng (cyflymder llwytho i lawr o 10Mbit/s a llwytho i fyny o 1Mbit/s): erbyn hyn mae mwyafrif helaeth yr holl eiddo yn y DU yn gallu manteisio ar fand eang teilwng. Mae nifer yr adeiladau (preswyl a masnachol) nad ydynt yn gallu cael gwasanaeth band eang 'teilwng' drwy linell sefydlog yn 590,000 (2%), sy'n debyg i'r ffigur o 608,000 yn adroddiad mis Ebrill. Gallai'r adeiladau hyn fod yn gymwys ar gyfer y [gwasanaeth band eang cyffredinol](#), sy'n rhoi'r hawl gyfreithiol i adeiladau nad ydynt yn gallu cael cysylltiad teilwng i wneud cais am un.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr, rydym yn disgwyl i argaeledd cynyddol Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA) arwain at ostyngiad pellach yn nifer yr adeiladau nad ydynt yn gallu cael cysylltiad band eang teilwng. Ar yr adeg honno, roeddem yn amcangyfrif mai tua 189,000 o adeiladau oedd ddim yn gallu cael gafael ar fand eang teilwng, hyd yn oed gan gynnwys rhwydweithiau FWA. Rydym yn gobeithio mynd i'r afael â darpariaeth y cyflwyniadau FWA presennol mewn rhagor o fanylder yn ein hadroddiad llawn ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r ffigurau uchod yn dangos argaeledd y gwasanaethau hyn, ond rydym yn ymwybodol bod pob cartref ddim yn manteisio ar y gwasanaeth cyflymaf posibl yn ei ardal. Byddwn yn adrodd ar lefelau defnyddio mewn manylder yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol fis Rhagfyr.

Cefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau band eang

Ym mis Gorffennaf, fe gyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad gyda'r bwriad o hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr, gan ystyried ymrwymiad BT i gyflwyno rhwydwaith ffeibr i o leiaf 3.2 miliwn mewn ardaloedd gwledig erbyn 2025/26, fel rhan o gynllun mwy i adeiladu 20 miliwn eiddo ledled y DU erbyn canol/diwedd y 2020au.⁴

Y DU: Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi bod bron i 500,000 o adeiladau ledled y DU wedi cael eu cysylltu â band eang sy'n gallu delio â gigabits ers haf 2018 o ganlyniad i ymrwymiad gan y llywodraeth i ddarparu £1 biliwn o gyllid. Mae'r cyllid hwn yn rhedeg tan ddiwedd 2020 ac mae £5 biliwn pellach wedi'i glustnodi ar gyfer yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd. Mae Llywodraeth y DU

³ Gall band eang gwibgyswllt gael ei ddarparu drwy amrywiaeth o dechnolegau, fel G.Fast, DOCSIS (Cebl) a ffeibr llawn.

⁴ <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/bt-commitment-area-3-fibre-network>

hefyd wedi lansio tasglu newydd – y Grŵp Cyngori ar Ddefnydd Gigabit (GigaTAG) – i annog mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau band eang gigabit.⁵

Yr Alban: Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo tua £600m i 'Reaching 100%', ei rhaglen band eang cyflym iawn sy'n ceisio sicrhau bod pob eiddo yn yr Alban yn cael cyflymder o 30 Mbit yr eiliad. Bydd hyn yn cynnwys uwchraddio tua 180,000 o adeiladau yn yr Alban nad ydynt yn gallu cael cyflymder band eang cyflym iawn ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban yn gynharach eleni y bydd yr holl waith adeiladu arfaethedig ar gyfer R100 yn ne'r Alban, a'r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu ar gyfer R100 yng nghanol yr Alban, yn defnyddio technoleg ffeibr llawn (neu ffeibr i'r adeilad).

Ym mis Awst, fe wnaeth Llywodraeth yr Alban hefyd gyhoeddi y byddai Cynllun Talebau Band Eang ar gyfer yr Alban yn cael ei lansio ym mis Medi 2020. Bydd y cynllun yn darparu grantiau i bobl a busnesau ac yn cynnig cymorth ariannol iddynt i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at gyflymder band eang cyflym iawn o 30 Mbit yr eiliad o leiaf. Bydd adeiladau nad ydynt yn rhan o'r rhaglen 'Reaching 100%' (R100) na darpariaeth fasnachol yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn. Mae pobl yn gallu gweld a ydynt yn gymwys ar gyfer y cynlluniau hyn drwy'r adnodd gwirio ar-lein newydd: (ffynhonnell: <https://www.scotlandsuperfast.com/>)

Cymru: Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod ganddi gytundeb ag Openreach i gynyddu nifer yr adeiladau roedd 'Superfast Cymru' yn mynd i'r afael â nhw o 26,000 i 39,000 fel rhan o becyn o fesurau o gyrraedd yr adeiladau yng Nghymru nad ydynt yn gallu cael band eang cyflym iawn. Bydd y cynnydd hwn yn cael ei ariannu gan £30m o gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd, gyda buddsoddiad ychwanegol gan Openreach.

Gogledd Iwerddon: Yng Ngogledd Iwerddon, nodir bod Project Stratum ar gam pellach yn y broses gaffael. Nod y prosiect yw gwella cysylltedd band eang yn y wlad drwy ymestyn seilwaith band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf (NGA) i oddeutu 79,000 o adeiladau. Ar ôl gwerthuso cynigion dros yr haf, disgwylir y bydd contractau'n cael eu dyfarnu ganol mis Hydref 2020.⁶

Y prif ganfyddiadau - Symudol

Rydym yn mesur darpariaeth ffonau symud mewn ffordd sy'n adlewyrchu profiad tebygol pobl wrth ddefnyddio eu ffonau symudol.⁷ Ni fu cynnydd arwyddocaol yn y ddarpariaeth ers ein hadroddiad diwethaf, ond rydym yn disgwyl y bydd y Rhwydwaith Gwledig a Rennir, y cytunodd Llywodraeth y DU a'r diwydiant arno yn gynharach eleni, yn gyrru gwelliannau i'r ddarpariaeth ymlaen dros y blynyddoedd nesaf.

4G: Ni welwyd newidiadau sylweddol yn darpariaeth y rhwydweithiau symudol 4G ar draws y DU dros y cyfnodau adrodd diwethaf. Mae gan ddwy ran o dair o ehangdir y DU ddarpariaeth 4G dda gan y pedwar gweithredwr, ac mae'r ardal hon yn cynnwys 97% o'r adeiladau yn y DU.

⁵ <https://www.gov.uk/government/news/gigabit-broadband-rollout-milestone-reached>

⁶ <https://www.economy-ni.gov.uk/topics/telecoms/project-stratum>

⁷ Manylir ar y diffiniadau yn yr atodiad ar fethodoleg yn adroddiad mis Rhagfyr 2019:

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/186411/connected-nations-2019-methodology.pdf

Mannau heb wasanaeth 4G: Mae manau heb wasanaeth – rhai daearyddol ac ar ffyrdd – (hynny yw, ardaloedd lle nad oes gwasanaethau 4G da ar gael gan unrhyw weithredwr symudol) yn dal i fod yn 9% a 5% y naill a'r llall, er bod y darlun yn y gwledydd unigol yn amrywio'n sylweddol, yn arbennig yng Nghymru a'r Alban.

Darpariaeth galwadau a negeseuon testun: Fel gyda 4G, ni fu fawr o newid at ei gilydd ers y cyfnodau adrodd blaenorol. Mae 80% o ehangdir y DU yn cael darpariaeth o ran galwadau a negeseuon testun gan yr holl weithredwyr, ac mae'r ardal hon yn cynnwys 99% o'r adeiladau yn y DU.

Mannau heb wasanaeth galwadau/negeseuon testun: Yn yr un modd, ni fu newid yn yr ardaloedd lle nad yw pobl yn gallu ffonio neu anfon neges destun drwy unrhyw weithredwr, ac mae'r manau daearyddol heb wasanaeth oddeutu 5% o'r DU, a'r manau heb wasanaeth ar ffyrdd y DU oddeutu 2%. Fodd bynnag, fel sy'n wir am 4G, mae amrywiadau amlwg rhwng y gwledydd unigol; er enghraifft, mae'r manau daearyddol heb wasanaeth ar draws yr Alban yn dal yn uwch nag yng ngweddill y DU (tua 12% o'i gymharu â 5% i'r DU gyfan).

5G: Nid ydym ond megis dechrau ar y gwaith o gyflwyno 5G, felly ni fyddwn yn adrodd ar y ddarpariaeth 5G yn y diweddariad hwn. Rydym yn parhau i weithio gyda gweithredwyr rhwydweithiau symudol i sefydlu'r ffordd orau o werthuso ac adrodd ar y ddarpariaeth 5G.

Cefnogi buddsoddiad a darpariaeth

Ddiwedd mis Awst, fe wnaeth Ofcom gwblhau'r rhaglen clirio 700 MHz. Ar ôl cwblhau'r prosiect, byddwn yn rhyddhau rhagor o donnau awyr mewn arwerthiant. Bydd y cyfnod cynnig yn dechrau fis Ionawr 2021 a bydd sbectrwm ar gael i'w ddefnyddio'n syth ar ôl yr arwerthiant⁸. Mae hyn yn golygu y bydd cwmnïau symudol yn gallu ei ddefnyddio i wella gwasanaethau symudol i gwsmeriaid a rhoi gwell mynediad at 5G i bobl.

Mae ein trwyddedau ardal leol newydd hefyd yn cefnogi prosiectau darpariaeth symudol mwy lleol, gan gynnwys prosiect Ch4Ike Mobile sydd, gyda chymorth dros £2m o gyllid gan y Llywodraeth, wedi cyhoeddi cysylltedd newydd ar gyfer Bowerchalke, pentref o dros 400 o bobl.⁹

Ym mis Gorffennaf 2020, fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein bod yn cynyddu faint o sbectrwm sydd ar gael ar gyfer Wi-Fi a thechnolegau di-wifr eraill, i ateb y galw cynyddol am Wi-Fi cyflymach a mwy dibynadwy i gefnogi gweithgareddau bob dydd a rhaglenni newydd.¹⁰

Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi ymrwymo £25 miliwn ar gyfer Rhaglen 'Scottish 4G Infill' (SG4i), sy'n ceisio helpu i adeiladu mastiau rhwydwaith symudol newydd mewn lleoliadau gwledig heb ddarpariaeth 4G. Mae'r rhaglen hon ar wahân i gytundeb Rhwydwaith Gwledig a Rennir ehangach y DU a nodir uchod, ac yn ychwanegol ato. Rhoddwyd diweddariad ar gynnydd ym mis Gorffennaf eleni, a oedd yn cadarnhau bod 36 o fannau di-gyswllt naill ai yn ystod y cam cyn-adeiladu neu'r cam adeiladu.¹¹

⁸ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/media/media-releases/2020/plans-for-spectrum-auction>

⁹ <https://ch4Ike.co.uk/>

¹⁰ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/improving-spectrum-access-for-wi-fi>

¹¹ <https://www.gov.scot/publications/scottish-4g-infill-programme-progress-update/>

Casglu ac adrodd ar y data

Rydym yn parhau i gynyddu nifer y gweithredwyr rydym yn casglu data darpariaeth ganddynt er mwyn gwella cywirdeb y data a gyhoeddir gennym. Rydym hefyd yn parhau i gasglu data am ddarpariaeth fesul 4 mis a gwybodaeth am ddefnydd bob blwyddyn. Yn ogystal â'n hadroddiadau rheolaidd, rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi gwybodaeth am effaith Covid-19 ar sector telegyfathrebiadau'r DU yn ein hadroddiad llawn ddiwedd y flwyddyn.

2. Dangosfyrddau

Band eang sefydlog

Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	10%	12%	14%
Lloegr	10%	11%	13%
Gogledd Iwerddon	31%	41%	49%
Yr Alban	8%	10%	13%
Cymru	12%	13%	15%

Mynediad at wasanaethau gwibgyswllt	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	53%	55%	57%
Lloegr	55%	58%	59%
Gogledd Iwerddon	49%	52%	57%
Yr Alban	45%	48%	50%
Cymru	31%	33%	34%

Mynediad at wasanaethau cyflym iawn	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	95%	95%	95%
Lloegr	95%	96%	96%
Gogledd Iwerddon	89%	89%	89%
Yr Alban	92%	93%	93%
Cymru	93%	93%	94%

Mynediad at wasanaethau 10Mbit/s	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	98%	98%	98%
Lloegr	99%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	94%	94%	94%
Yr Alban	97%	97%	97%
Cymru	97%	97%	97%

Methu cael 10Mbit/s ffrydio i lawr ac 1Mbit/s ffrydio i fyny (yn gymwys o bosib am USO)	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	2%	2%	2%
Lloegr	2%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	6%	6%	6%
Yr Alban	4%	3%	3%
Cymru	3%	4%	3%

Nodyn 1: Dim ond os yw'r canlynol yn wir yr ydym yn ystyried bod gan eiddo "ddarpariaeth ffeibr llawn": 1. bod ffeibr ar gael yn agos at yr eiddo, fel mai dim ond cysylltiad ffeibr pwrpasol i'r eiddo sydd ei angen i ddarparu

cysylltedd ffeibr llawn (o'r dechrau i'r diwedd), a 2. mai dim ond tâl cysylltu cyhoeddedig y cytunwyd arno ymlaen llaw y byddai disgwyl i'r defnyddiwr ei dalu, pe bai tâl o'r fath yn cael ei godi

Nodyn 2: Mae'n bosib nad yw hyn yn cynnwys gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai.

Nodyn 3: Mae'r ffigurau am y rhai a allai fod yn gymwys am USO yn cynnwys pob eiddo (preswyl a masnachol). Mae'r ffigurau am gyflymderau eraill yn cyfeirio at eiddo preswyl yn unig.

Nodyn 4: Cynyddodd nifer y rhai a fyddai o bosib yn gymwys am USO yng Nghymru 0.3% rhwng mis Medi 2019 a mis Ionawr 2020, ond oherwydd talgrynnu mae'n uwch yn yr adroddiad. Mae'r cynnydd i'w briodoli i adeiladau newydd sydd wedi'u canfod lle mae'r cyflymder band eang islaw'r trothwy USO i rai neu ddim ar gael, a gwell amcangyfrifon o gyflymderau copr, ond eu bod yn is, a gwell modelu ar y ddarpariaeth FTTP gan Openreach. Gallai'r effeithiau hyn fod yn amlwg hefyd mewn ffigurau ar lefelau mwy sylfaenol megis Awdurdodau Lleol neu godau post.

Darpariaeth 4G

Eiddo (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	97%	97%	97%
Lloegr	98%	98%	98%
Gogledd Iwerddon	92%	92%	93%
Yr Alban	96%	96%	96%
Cymru	93%	93%	93%

Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	66%	67%	67%
Lloegr	81%	82%	82%
Gogledd Iwerddon	75%	75%	77%
Yr Alban	42%	43%	43%
Cymru	58%	58%	58%

Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	9%	9%	9%
Lloegr	3%	3%	3%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	20%	20%	20%
Cymru	11%	11%	10%

Darpariaeth ar bob ffordd gan bob gweithredwr	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	56%	56%	57%
Lloegr	62%	63%	64%
Gogledd Iwerddon	42%	42%	46%
Yr Alban	43%	44%	44%
Cymru	45%	45%	46%

Pob ffordd sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	5%	5%	5%
Lloegr	3%	3%	3%
Gogledd Iwerddon	7%	7%	7%
Yr Alban	9%	9%	9%
Cymru (Nodyn 3)	11%	11%	10%

Nodyn 1: Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G: 4G (-105 dBm). Mae hyn yn ymwneud ag achosion lle mae bron pob cysylltiad yn gallu darparu cyflymder cysylltu sy'n 2Mbit yr eiliad o leiaf a galwadau llais dibynadwy.

Nodyn 2: Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol ym mis Rhagfyr, mae'r data darpariaeth yn cynnwys rhagfynegiadau a gawsom gan EE a oedd yn defnyddio model rhagfynegi darpariaeth sydd newydd ei ddatblygu. Mae wedi arwain at rywfaint o newidiadau yn y ddarpariaeth y mae'n ei darogan ar gyfer ehangdir ac adeiladau. Mae hynny'n berthnasol hefyd i'r gwasanaethau llais a negeseuon testun yn y dangosfwrdd isod.

Nodyn 3: 10% oedd y ffigur a gyhoeddwyd ar gyfer mis Ionawr 2020 yn niweddariad y Gwanwyn, ond mae ailgyfrifiad wedi dangos ei fod wedi newid 0.07 pwynt canran, sy'n golygu ei fod nawr yn ymddangos fel 11% oherwydd talgrynnu.

Darpariaeth galwadau a negeseuon testun:

Eiddo (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	99%	99%	99%
Lloegr	99%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	97%	97%	97%
Yr Alban	98%	98%	98%
Cymru	98%	98%	98%

Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	79%	79%	80%
Lloegr	91%	91%	92%
Gogledd Iwerddon	86%	86%	87%
Yr Alban	58%	59%	59%
Cymru	77%	78%	78%

Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	5%	5%	5%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	1%	1%	1%
Yr Alban	12%	12%	12%
Cymru	5%	5%	5%

Darpariaeth ar bob ffordd gan bob gweithredwr	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	76%	76%	77%
Lloegr	82%	83%	83%
Gogledd Iwerddon	62%	62%	64%
Yr Alban	62%	63%	63%
Cymru	70%	70%	70%

Pob ffordd sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Medi 2019	Ionawr 2020	Mai 2020
Y Deyrnas Unedig	2%	2%	2%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	4%	4%	4%
Cymru	5%	5%	5%

Dyma'r trothwyon ar gyfer llais a thestun: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm).